



Ein Rhanbarth ar Waith  
Education through Regional Working

## Hunanwerthuso ERW

Mai 2015

### Cyflwyniad

Fel rhan o drefniadau hunanwerthuso parhaus ERW, nod yr hunanwerthusiad byr hwn yw darparu gwaelodlin wrthrychol a gwerthusol ar gyfer gwelliant parhaus a phellach yng ngwaith y rhanbarth. Ei nod yw canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau ac arweinyddiaeth ac ar brosesau a threfniadau yn ogystal â deilliannau i ddysgwyr. Mae'r ddogfen hon yn dod â'r canlynol ynghyd: 35 o argymhellion adolygiadau allanol diweddar; casgliadau ein monitro parhaus o'r cynllun busnes; adborth craffu a'r materion y tynnwyd sylw atynt drwy'r broses rheoli risg. Hefyd mae'r ddogfen hon yn rhoi sylw i'r cynnydd yn erbyn meysydd i'w datblygu a'r cynnydd a wnaed ers Adroddiad Hunanwerthuso mis Mai 2014 a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyd-bwyllgor (Mehefin / Gorffennaf 2014) a diweddariadau dilynol ym mis Tachwedd 2014 a mis Mawrth 2015.

Mae tair agwedd fframwaith arolygu Estyn wedi cael eu defnyddio fel canllaw.

1. Safonau
2. Darparu Gwasanaeth
3. Arweinyddiaeth

## Crynodeb

Mae safonau'n dda o gymharu â rhanbarthau eraill, ac mae'r perfformiad o ran yr holl ddangosyddion yn gwella ar gyflymder cynaliadwy a chyson, a hynny'n gynt na chyfartaledd Cymru yn achos rhai ohonynt. Ar y cyfan, mae'r rhanbarth yn perfformio'n dda ac mae disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o berfformio'n dda yn ERW na rhanbarthau eraill. Mae lle sylweddol i wella o ran yr holl ddangosyddion yn y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol, ond mae perfformiad yn dda ar y cyfan gan fod perfformiad lefel ysgol wedi gwella yn gyffredinol ac rydym wedi adennill y safle uchaf ar gyfer y rhanbarth sy'n perfformio orau ar gyfer Lefel 2 + sef 57.6%.

Ers mis Ebrill 2015, a dechrau'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, mae'r rhanbarth wedi cymryd camau sydyn er mwyn adeiladu'r seilwaith, y sgiliau, a'r capasiti angenrheidiol i ymateb i'r angen am gydymffurfio ac er mwyn gwella cysondeb ac ansawdd o ran prosesau a chymorth gweithredol i ysgolion. Bydd gwneud penodiadau llwyddiannus i swyddi allweddol (Mehefin) yn hanfodol i lwyddiant a chapasiti'r rhanbarth yn ystod y 18 mis nesaf.

Yn gyffredinol, mae gan benaethiaid syniad cliriach ynghylch yr hyn gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth rhanbarthol ac mae'r adborth o'r ddau ymweliad craidd wedi bod yn gadarnhaol. Mae nifer bach o ysgolion yn dal yn ansicr ynghylch yr ystod o wasanaethau y dylent eu disgwyl gan yr hwb/gwasanaeth rhanbarthol. Fel arfer mae hyn oherwydd nad yw'r pennaeth unigol yn deall yn llawn beth yw llywodraethu neu hyd a lled gweithio'n rhanbarthol.

Mae'r tîm Ymgynghorwyr Her yn un cytbwys a phroffesiynol, ac mae gan y rhan fwyaf o aelodau'r tîm brofiad diweddar a pherthnasol. Mae datblygiad proffesiynol parhaus ac adborth ynghylch eu gwaith yn golygu bod cyfleoedd adborth a datblygu cyson, sydd eisoes wedi arwain at ragor o gysondeb yn ansawdd eu gwaith.

Yn gyffredinol mae'r arweinyddiaeth a roddir i waith y rhanbarth trwy ei Fwrdd Gweithredol a'i Gyd-bwyllgor yn dda ac yn effeithiol. Mae aelodau'r Cyd-bwyllgor yn gwybod yn iawn beth yw'r heriau i'r rhanbarth ar gyfer 2015-16. Mae dealltwriaeth glir o'r camau sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud gwelliannau. Ar rai achlysuron prin, y rheswm dros anghysondeb mewn dealltwriaeth yw arafwch o ran cyfathrebu ag aelodau etholedig neu ddiffyg eglurder wrth wneud hynny.

Mae gan y bwrdd gweithredol gydbwysedd priodol o aelodau allanol a chyfarwyddwyr o'r Awdurdodau Lleol cyfansoddol. Mae'r cymorth cyfoedion a'r her rhwng chyfarwyddwyr yn effeithiol. Mae arweinyddiaeth ar y cyd gan yr holl awdurdodau lleol wedi creu cynghrair gref sydd wedi galluogi'r rhanbarth i wneud safiad ar y cyd ynghylch sawl agwedd allweddol ar arferion. Yn y gorffennol roedd dirnadaeth bod rhai agweddau ar wneud penderfyniadau wedi bod yn aneglur, ac nad oedd pawb yn deall yn glir rai agweddau ar atebolrwydd democrataidd. Bellach mae gwelliant wedi bod o ran tryloywder y gwyddys mwyfwy

amdano ac a rennir mwyfwy. Mae'n amlwg bod gallu'r tîm rhanbarthol i gyfathrebu wedi cael effaith, a chaiff defnydd effeithiol o'r wefan ei ategu gan ddeialog reolaidd â chymdeithasau Penaethiaid a thrwy Fwrdd y Penaethiaid. Mae hyn yn creu darlun gwell a thecach o waith y rhanbarth ymysg ein rhanddeiliaid pwysicaf. Mae'r berthynas â rhai undebau llafur dan straen ac yn amharu ar waith y rhanbarth o ran cefnogi athrawon ac ysgolion mor effeithiol â phosibl. Serch hynny, mae'r ymdrechion parhaus i fabwysiadu strategaethau gwahanol ar gyfer ymgysylltu ag undebau llafur yn dechrau rhoi bod i ddeilliannau cadarnhaol.

## Safonau

Mae safonau'n dda o gymharu â rhanbarthau eraill, ac mae'r perfformiad o ran yr holl ddangosyddion yn gwella ar gyflymder cynaliadwy a chyson. Ar y cyfan, mae'r rhanbarth yn perfformio'n dda ac mae disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o berfformio'n dda yn ERW na rhanbarthau eraill. Ar y cyfan mae perfformiad yn dda oherwydd:

- ❖ mae perfformiad lefel ysgol wedi gwella yn gyffredinol ac rydym wedi adennill y safle uchaf ar gyfer y rhanbarth sy'n perfformio orau ar gyfer Lefel 2 + sef 57.6%;
- ❖ mae presenoldeb yn dal i wella, gyda chynnydd o 1.2 pwynt canran y llynedd yn y sector uwchradd i 93.7% yn 2013/14; bu i'r sector cynradd gynyddu 1.5 pwynt canran i 94.9%.

Fodd bynnag, yn gyffredinol mae safonau ar hyd a lled y rhanbarth yn ddigonol gan fod perfformiad cyffredinol rhai Awdurdodau Lleol yn dal i fod yn is na'r disgwyl a chan fod perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn rhy isel. Fodd bynnag mae hyn yn celu meysydd o arfer da a rhagorol mewn nifer o ysgolion a safonau gweddol neu wael fel arall. Er cydnabod bod perfformiad ar Lefel 2+ yn ERW yn well na rhanbarthau eraill, mae gan yr holl Awdurdodau Lleol a'r rhan fwyaf o ysgolion welliannau amlwg i'w gwneud cyn eu bod yn perfformio hyd eithaf eu gallu. Yn yr un modd mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o berfformio'n dda yn ERW na rhanbarthau eraill, ond rydym yn cydnabod bod yn rhaid inni leihau'n sylweddol effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Hyd yn oed lle bo ysgolion yn meincnodi'n dda a lle bo perfformiad cyffredinol disgyblion yn dda, yn rhy aml mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn wael.

Mae lle digonol i wella o ran yr holl ddangosyddion allweddol mewn perthynas â chynnydd disgyblion yn holl awdurdodau lleol y rhanbarth.

O gymharu â rhanbarthau eraill, mae perfformiad ERW yn dda ond mae angen iddo fod yn hyderus ac yn gyson uwch na disgwyliadau Awdurdodau Lleol yn yr holl Awdurdodau Lleol. Dylai'r rhanbarth sicrhau bod cynnydd yn digwydd yn annibynnol ar y cynnydd cenedlaethol cyfartalog er mwyn adlewyrchu'r disgwyliadau yn ein cyd-destun cymdeithasol-economaidd. Nid yw perfformiad Powys a Sir Benfro ar Lefel 2+ yn gwella'n ddigon cyflym.

I gael rhagor o fanylion gweler dadansoddiad data mis Tachwedd.

Er mwyn herio ein hunain gellir edrych ar ystadegau tebyg cymdogion yn Lloegr - Swydd Derby, Caint a Swydd Norfolk. Fodd bynnag, gall newidiadau diweddar yn 2014 olygu bod rhai o'r casgliadau'n gamarweiniol. Serch hynny eleni byddwn yn parhau i edrych ar y cymariaethau hyn er mwyn cefnogi gwelliant a dyheadau. Mae dadansoddiad presennol yn awgrymu bod ein perfformiad yn debyg i berfformiad yr ardaloedd hyn yn Lloegr.

Gweler Atodiad 3 i gael rhagor o wybodaeth.

## Darparu Gwasanaeth

	tystiolaeth
<p>Ers mis Ebrill 2015, a dechrau'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, mae'r rhanbarth wedi cymryd camau sydyn er mwyn adeiladu'r sgiliau a'r capasiti angenrheidiol i ymateb i'r angen am wella ac er mwyn gwella cysondeb ac ansawdd o ran prosesau a chymorth gweithredol i ysgolion.</p> <p>Mae'r rhanbarth yn sefydlu ei waith o ran creu system hunanwella ac mae'n defnyddio systemau cynaliadwy er mwyn cefnogi proses newid. Mae capasiti'r rhanbarth a'r ysgolion i ymateb i newid yn fregus ac felly mae adeiladu'n effeithiol ar waith blaenorol yn allweddol i lwyddiant.</p>	<p>Gwefan, Ysgol Gymorth, strategaethau</p>
<p>Mae'r holl ymgynghorwyr yn cwblhau hunanddadansoddiad blynyddol yn erbyn y safonau Ymgynghorydd Her Cenedlaethol. Caiff hyn ei adolygu a'i sicrhau gan eu rheolwyr llinell. Mae cyfleoedd datblygu yn cael eu nodi o'r broses hon ac yn cael eu cynnwys yn y rhaglen hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn. Mae canfyddiadau'r flwyddyn hon (2015) yn well na'r llynedd. Mae aelodau'r tîm yn fwy hyderus ac yn teimlo eu bod mewn sefyllfa well i gyflawni eu rolau. Daeth arolwg o ymgynghorwyr ym mis Mai 2015 i'r casgliad bod 93% yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau a bod 100% o'r farn bod gweithio mewn tîm rhanbarthol yn brofiad cadarnhaol neu eithaf cadarnhaol.</p>	<p>Rhaglen Hyfforddiant a Datblygu i ymgynghorwyr.</p> <p>Arolwg.</p> <p>Dadansoddi hunanddadansoddiad.</p>
<p>Mae'r rhanbarth wedi cryfhau ei arweiniad a'i hyfforddiant i ymgynghorwyr ymhellach er mwyn mynd i'r afael â meysydd y nodwyd eu bod yn wan: adroddiadau cyn arolygu i Estyn; dadansoddi data ysgrifenedig; brocera. Hefyd darperir diweddariadau'n rheolaidd megis newidiadau i gategoreiddiad, deddfwriaeth, a disgwyliadau</p>	<p>Cynnwys hyfforddiant</p>
<p>Mae'r tîm Ymgynghorwyr Her yn un cytbwys a phroffesiynol, ac mae gan y rhan fwyaf o'r aelodau brofiad diweddar a pherthnasol. Mae datblygiad proffesiynol parhaus ac adborth ynghylch eu gwaith yn golygu bod cyfleoedd adborth a datblygu cyson. Mae adborth diweddar gan Estyn, Llywodraeth Cymru ac ysgolion yn ategu bod</p>	<p>Adroddiad Estyn</p>

<p>sgiliau a chymhwysedd ymgynghorwyr wedi gwella.</p>	
<p>Mae rhaglen DPP effeithiol i Ymgynghorwyr Her yn helpu i leihau'r nifer bach o anghysondebau o ran y gwaith ar draws y rhanbarth. Hefyd mae hyfforddiant wedi'i dargedu yn cael effaith eisoes ar feysydd sy'n peri pryder. Caiff hyn ei blethu â rheoli perfformiad unigolion.</p>	<p>Rhaglen Ymgynghorwyr</p>
<p>Yn gyffredinol mae'r adborth gan ysgolion am ymweliad yr hydref i gategoreiddio a brocera cymorth i ysgolion yn dda neu'n well. Yn yr un modd mae'r ail ymweliad wedi cael effaith gadarnhaol ar ysgolion. Yn gyffredinol, mae gan benaethiaid syniad cliriach ynghylch yr hyn gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth rhanbarthol.</p> <p>Mae'r ymweliadau craidd ag ysgolion sy'n digwydd ddwywaith y flwyddyn yn hanfodol i gynnal gwybodaeth am ysgolion a chael trosolwg arnynt. Wrth inni ddatblygu gwaith ysgol-i-ysgol ymhellach parheir â'r ymweliadau hyn gan sicrhau y cedwir safonau uchel ac y cynhelir ein gwybodaeth am yr holl ysgolion.</p>	<p>Ysgol Gymorth</p> <p>Ffurflenni adborth ynghylch Ymweliadau Craidd yr Hydref</p>
<p>Roedd strategaeth ERW yn 2013 yn cynnwys y nod o ddatblygu gwaith ysgol-i-ysgol a chreu rhwydwaith cadarn o gydweithredu rhwng ysgolion.</p> <p>Cyfunwyd ystod o fethodolegau, ymyriadau a phrosiectau er mwyn meithrin profiad sylweddol ar draws y rhanbarth. Roedd y broses hon yn organig, ymatebol a heb ei threfnu i raddau helaeth. Fodd bynnag, yn achlysurol roedd y broses yn cael ei threfnu a'i brocera'n ffurfiol. Roedd hyn yn ein galluogi i strwythuro'n ffurfiol strategaeth a model clir i gefnogi gwaith ysgol-i-ysgol a dylunio'n ffurfiol fframwaith ar gyfer strwythuro gwaith y rhanbarth.</p> <p>Mae system hunanwella yn organig. Yn ôl yr adborth dangosol rydym wedi ei gael gan ysgolion mae'r gwaith yn llwyddiannus i raddau helaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar forâl, capasiti arweinyddiaeth a datblygu systemau. Mae'r effaith ar ddeilliannau dysgwyr yn anodd iawn i'w briodoli, fodd bynnag mae'n bosibl nodi'n uniongyrchol fod cydweithio yn ffactor cyfranogol pan fo ysgolion yn gwella.</p> <p>Yn dilyn yr adolygiad hwn byddwn yn dylunio camau nesaf y newid yn system ERW yn sgil y canfyddiadau hyn. Mae arweinydd</p>	<p>Adolygiad cynnar o system hunanwella</p>

<p>strategol ERW ar gyfer gwaith ysgol-i-ysgol, a phenodiad newydd dros dro er mwyn galluogi cydweithio, wedi trefnu tasgau seilwaith er mwyn cynnal momentwm wrth inni gamu ymlaen o ran y math hwn o weithio.</p>	
<p>Er mwyn rhoi bod i newid llwyddiannus i'r system, bydd angen i'r rhanbarth greu'r amodau priodol er mwyn i system hunanwella lwyddo. Ar hyn o bryd rydym yn adeiladu capasiti digonol i arwain, cydgysylltu, a hwyluso'r seilwaith angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu rhwydweithiau gwybodaeth/mynegai rhagoriaeth trwy Deialog fel y gellir hwyluso 'cyflwyno' yn rhanbarthol.</p> <p>Bydd y gwaith i'w ddatblygu sydd â chapasiti ychwanegol yn cynnwys monitro effaith ar ddeilliannau dysgu mewn ysgolion sy'n ymgysylltu'n ffurfiol â chydweithio rhwng ysgolion, rhwng adrannau neu rhwng athrawon; gan alluogi datblygu cydweithio rhwng ysgolion yn organig wrth seilio agweddau ar eu gwaith eu hun ar y model cyfredol o wyth dull a dathlu llwyddiant ac effaith lle bo'n bosibl. Ar hyn o bryd, er bod y gwaith hwn yn datblygu'n dda, bydd capasiti ac amser sefydlu yn angenrheidiol.</p>	<p>Adolygiad cynnar o'r system hunanwella.</p> <p>Ffrydiau gwaith ar gyfer y Pennaeth Cydweithio</p>
<p>Mae cyflawni cynllun busnes ERW yn cael ei hwyluso gan 16 ffrwd waith. Mae cymorth cwricwlwm yn ffrwd waith allweddol o dan ddysgu ac addysgu.</p> <p>Caiff y ffrydiau gwaith hyn eu cyflawni'n llwyddiannus drwy nifer bach o weithgorau â ffocws. Mae cylch gorchwyl perthnasol, ffocws clir ar gamau cytûn, ac arweiniad a roddir yn uniongyrchol drwy'r Bwrdd Gweithredol. Mae cymorth cwricwlwm ar gyfer 14-19, y Cyfnod Sylfaen a chymorth i'r Gymraeg mewn Addysg yn benodol ac mae cwmpas gwaith y rhanbarth (yn hytrach na gwaith yr Awdurdodau Lleol) wedi'i bennu'n glir ac mae ei ffocws unwaith eto wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol. Y nod yw bod yn glir ynghylch cymorth cwricwlwm a'r hyn sy'n flaenoriaeth o ran trefniadaeth ysgolion ac sy'n aros yn yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws mesur effaith ac yn haws i'r staff reoli disgwyliadau a chamau gweithredu.</p>	<p>Y Cyfnod Sylfaen, 14-19, y Gymraeg mewn Addysg - papurau i'r Bwrdd Gweithredol</p>
<p>Mae cymorth i bynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 4 yn gryfder. Mae ein rhaglen gymorth TGAU yn darparu cymorth o ansawdd uchel i ysgolion uwchradd mewn Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a</p>	



<p>Gwyddoniaeth. Ers mis Medi 2014 mae rhaglen gymorth ERW wedi cynnwys gwyddoniaeth ochr yn ochr â'r pynciau eraill. Mae'r adborth gan ysgolion i'r cymorth cydgysylltiedig hwn i adrannau wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae'r ffocws wedi bod ar gynyddu capasiti a chynnal adrannau gwydn. Bu'r ymagwedd hon yn ddefnyddiol o ran ffocysu cymorth lle a phan fo'n ofynnol. Mae ein harolwg o ysgolion yn gadarnhaol, fel y mae arwyddion cynnar o welliannau o fynediad cynnar ymlaen.</p>	
<p>Mae ysgol cymorth ac ymyrraeth gyffredin lwyddiannus wedi cael ei datblygu yn y rhanbarth ac mae'n cael ei mireinio a'i gwella o flwyddyn i flwyddyn. Mae effaith yr ysgol cymorth ac ymyrraeth wedi bod yn sylweddol, gan roi hawl a disgwyliad cyffredin i bob ysgol. Caiff yr ysgol gymorth ei mireinio eto eleni, fel y llynedd, er mwyn adlewyrchu gofynion newydd y system Categoriaddio Cenedlaethol.</p> <p>Mae ymweliad craidd 2 yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu. Gan adeiladu ar graffu ar waith (2014) ac ansawdd dysgu ac addysgu (2015) rydym eisoes wedi gallu cynllunio'r ffocws ar nodi a rhannu arferion addysgu effeithiol ar gyfer 2016. Mae'r offeryn arsylwi gwersi wedi caniatáu inni adael gwaddol gydag ysgolion. Roedd yr adborth gan ysgolion yn gadarnhaol iawn ac rydym wedi ceisio cael yr adborth hwn yn ffurfiol yn syth a gwneud adborth yn rhan o'r Ysgol Gymorth yn ddigidol. Unwaith eto roedd yr adborth a gafwyd i'r ail ymweliad yn gadarnhaol. Yn gyffredinol, mae'r ysgolion yn canfod bod y gwaddol neu'r arferion a rennir yn sgil yr ail ymweliad yn ychwanegiad defnyddiol at eu trefniadau gwella a'u prosesau hunanwerthuso. Er enghraifft, yn sgil craffu ar waith (2014) bu i bron bob ysgol ddatblygu trefniadau parhaus ar gyfer craffu ar waith. Mae hyn wedi cefnogi asesu parhaus a darparu ffocws perthnasol ar addysgu. Yn 2015 bu i'r ffocws ar addysgu barhau, trwy ein gwaith i gefnogi arweinwyr ysgol â'u trefniadau ansawdd mewnol ynghylch safonau addysgu. Eleni rhoesom offeryn arsylwi gwersi i ysgolion er mwyn cefnogi monitro parhaus o'r addysgu sy'n digwydd yn y dosbarth. Mae hyn wedi'i groesawu eto gan yr ysgolion fel offeryn i geisio rhagoriaeth yn ogystal â chynyddu disgwyliadau sylfaenol. Daethpwyd o hyd i amrywiad bach o ran dyfarniadau ynghylch ansawdd yr addysgu. Fodd bynnag, yn gadarnhaol, hefyd daethpwyd i'r casgliad bod y rhan fwyaf o</p>	<p>Arolwg grŵp dysgu ac addysgu</p> <p>Arweiniad Ymweliad 2</p> <p>Offeryn arsylwi gwersi</p>

<p>ysgolion yn gallu ffocysu ar nifer bach o weithgareddau i wella safonau addysgu.</p> <p>Roedd rheoli perfformiad ac ansawdd addysgu yn flaenoriaeth ranbarthol y llynedd. Bydd y rhanbarth yn parhau i ffocysu ar addysgu eleni, gan sefydlu ac adeiladu ar rai o'r strategaethau oedd ar gael y llynedd. Mae gwaith y Bwrdd Blaenoriaethau Dysgu ac Addysgu yn ffocysu ar alinio yr ail ymweliad â blaenoriaethau'r rhanbarth ac ymateb i anghenion unigryw a phwrpasol pob ysgol. Gan ddysgu o wybodaeth blynyddoedd blaenorol, yn 2015 bydd yr holl ysgolion yn trafod â'u hymgyngorydd gyfres o themâu a modus operandi ar gyfer ymweliad 2. Y llynedd roedd brocera cymorth yn her i ymgynghorwyr a oedd yn aneglur o dro i dro ynghylch cwmpas y cymorth. Bydd y fwydlen gymorth ar ei newydd wedd yn sicrhau ein bod, yn rhanbarthol, yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac yn rhannu arferion yn systematig.</p>	
<p>Mae cymorth ar gyfer Llythrennedd Corfforol yn y rhanbarth wedi'i ddirprwyo i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, sy'n cynnal y rhaglen Llythrennedd Corfforol ar y cyd â Chyngor Chwaraeon Cymru. Cyfrifoldeb ERW yw cynnal capasiti cynaliadwy mewn ysgolion trwy'r Ysgol Dysgu Proffesiynol a nodwyd, a fydd yn gallu parhau i rannu ac arwain arfer effeithiol yn barhaus.</p>	
<p>Roedd rhaglen gymorth gyffredin ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar gael i'r holl ysgolion ledled y rhanbarth y llynedd. Roedd y rhaglen yn rhoi hyfforddiant defnyddiol ac effeithiol i staff a dargedwyd er mwyn gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu o ran llythrennedd a rhifedd, gan ategu hynny drwy ddatblygu addysgu da mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg.</p> <p>Roedd yr adborth yn gadarnhaol yn gyffredinol, er bod hynny'n amrywio o hwb i hwb. Bydd adeiladu ar benodiad Rheolwr Ansawdd newydd yn ein galluogi i sicrhau cysondeb o ran ansawdd.</p> <p>Ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf mae'r ffordd y darperir cymorth i ysgolion wedi cael ei datblygu ymhellach. Er mwyn gwneud cymorth yn bwrpasol ar gyfer ysgolion ac er mwyn targedu'n effeithiol yr holl staff mewn ysgolion, mae'r rhaglen hyfforddiant ganolog wedi'i chwtogi'n sylweddol. Bydd yn cael ei</p>	

<p>disodli gan gymorth pwrpasol a chymorth a dargedwyd i ysgolion, wedi'i frocera gan Ymgynghorwyr Her a'i ddarparu fel datblygiad ysgol gyfan. Yn bwysig ddigon, bydd ysgolion yn gweld ymagwedd mwyfwy gwahanol tuag at gymorth, ynghyd â chynnydd mewn cymorth gan ysgolion eraill.</p> <p>Mae'r holl swyddogion llythrennedd a rhifedd wedi derbyn hyfforddiant ac wedi bod yn gweithio ar y cyd er mwyn datblygu modiwlau hyfforddiant i bwysleisio neges sy'n fwy cyson ac i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn gyson uchel. Bydd ysgolion yn cael rhaglen sy'n fwy ffocysedig a byddant yn gallu cyrchu rhai pecynnau i'w rhoi ar waith eu hunain.</p>	
<p>Mae dysgu digidol wedi cael ei nodi fel her i'r rhanbarth ac rydym yn gweithio tuag at alinio a ffocysu ein gwaith yn y maes hwn. Mae angen ffocysu ein camau gweithredu yn y maes hwn ar fyrder er mwyn elwa cymaint ag sy'n bosib. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar bedwar maes: addysgeg ddigidol, defnyddio technoleg yn effeithiol fel offeryn i ddysgwyr, datblygiadau strategol rhanbarthol, a chynnydd o ran defnyddio technoleg i wella ysgolion. Tasg gyntaf y Pennaeth Dysgu Digidol newydd fydd cloriannu ein sefyllfa bresennol a chynllunio ein camau gweithredu yn y tymor byr a'r tymor canolig, yn enwedig ym mhle gallwn adeiladu ar waith ein hysgolion dysgu proffesiynol a'r arferion gorau sydd ar gael.</p>	
<p>Dim ond rhai anghysondebau sy'n parhau o ran y ffordd mae ysgolion unigol yn cael eu cynorthwyo, eu monitro a'u herio. Ar y cyfan mae arferion effeithiol yn cael eu rhannu ac adeiladir arnynt yn gynyddol dda. Mae rheoli perfformiad anghyson nifer bach o unigolion yn cael effaith sylweddol ar ansawdd y ddarpariaeth yn achos ychydig iawn o ysgolion. Fel y nodwyd, mae trefniadau sicrhau ansawdd a hyfforddiant ychwanegol yn lleihau'r anghysondebau ymhellach.</p>	
<p>Mae ansawdd yr her a'r ddeialog rhwng ymgynghorwyr ac ysgolion wedi gwella'n helaeth ac mae sgiliau a chymhwysedd ymgynghorwyr yn well. Mae recriwtio, dysgu proffesiynol ac adborth parhaus wedi cyfrannu at y gwelliant hwn. Ein her nesaf fydd sicrhau adroddiadau o ansawdd uchel sy'n adlewyrchiad teg o'n gwaith ac o waith ysgolion yn ddi-ffael.</p>	

<p>Mae bron pob Pennaeth yn glir ynghylch y cymorth a'r her dylent eu cael. Mae hyn wedi gwella yn y 6 mis diwethaf o achos cyfathrebu cyson a strategaethau newydd i roi gwybodaeth iddynt. Mae cyfathrebu effeithiol a chyson a chyfraniad cynyddol o ran cynllunio'r gwasanaeth a ddarperir yn golygu ein bod, drwy Fwrdd y Penaethiaid a'r cymdeithasau Penaethiaid, wedi gallu gwella ymgysylltu a boddhad o ran y gwasanaethau a ddarperir.</p>	
<p>Bydd gwaith rhanbarthol ar leithoedd Tramor Modern yn dechrau ym mis Medi trwy benodi Arweinydd Dysgu. Mae'n rhy gynnar i farnu unrhyw effaith.</p>	
<p>Mae swyddogion y Gymraeg mewn Addysg o'r chwe awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd er mwyn rhannu a gwella ansawdd yr adnoddau sydd ar gael i ysgolion. Mae cyflwyniad Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar y cyd wedi cael ei ddrafftio a bydd yr holl ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael set ddata ychwanegol ym mis Medi i helpu i ddadansoddi'r data yn erbyn rhai o flaenoriaethau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ym mhob Awdurdod Lleol.</p>	
<p>Roedd y cymorth o ran profi yn cynnwys gwiriadau ar hap a gâi eu cynnal cyn, yn ystod, ac ar ôl y cyfnod profi er mwyn monitro'n effeithiol weithrediad yr ysgol. Defnyddiwyd Ymgynghorwyr Her a Swyddogion Pwnc i wirio cydymffurfiaeth â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac i sicrhau nad oedd unrhyw gamymarfer.</p> <p>Yn gyffredinol nid oedd unrhyw broblemau o ran monitro, ond lle roedd rhai yn codi ceisiwyd cyngor gan Lywodraeth Cymru ac nid oedd angen cymryd camau dilynol.</p> <p>Roedd bron pob ysgol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi cymorth effeithiol i ddisgyblion er mwyn sicrhau y rhoddir y cyfle gorau iddynt berfformio'n dda. Mewn achosion lle byddai disgyblion yn cael amser ychwanegol neu gymorth ychwanegol dilynwyd y camau cywir. Roedd timau Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdodau Lleol yn gweithio'n dda gydag ysgolion er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael y lefel gywir o gymorth yn yr achosion hyn.</p> <p>Cynhaliwyd digwyddiadau cefnogi marcio ar draws y rhanbarth er mwyn rhoi cymorth i athrawon o ran marcio profion Blwyddyn 2 i Flwyddyn 6. Roedd y digwyddiadau hyn yn effeithiol iawn o ran sicrhau bod y cynlluniau marcio yn cael eu cymhwysu'n briodol ac yn darparu datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel i athrawon. Roedd y cynllun marcio yn cael ei gymhwysu'n dda gan y staff oedd yn bresennol yn y</p>	

digwyddiadau hyn a bydd y cynllun hwn yn cyfrannu at ymagwedd fwy cyson ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag nid oedd yr holl ysgolion yn bresennol yn y digwyddiadau hyn. Er mwyn gwella hyn y flwyddyn nesaf, caiff ysgolion eu targedu er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn cael ei chynrychioli fel y gallwn sicrhau bod y cynllun marcio yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ym mhob achos.

Yn y flwyddyn academaidd nesaf argymhellir sicrhau bod yr holl ysgolion yn anfon staff i'r digwyddiadau cefnogi marcio y flwyddyn nesaf.

## Arweinyddiaeth

<p>Yn gyffredinol mae'r arweinyddiaeth a roddir i waith y rhanbarth trwy ei Fwrdd Gweithredol a'i Gyd-bwyllgor yn dda ac yn effeithiol. Mae aelodau'r Cyd-bwyllgor yn gwybod yn iawn beth yw'r heriau i'r rhanbarth ar gyfer 2015-16. Mae dealltwriaeth glir fod yr holl flaenoriaethau a chymau gweithredu yn plethu'n dda â chynlluniau unigol lleol a bod gwaith y rhanbarth yn gallu ymateb i angen.</p> <p>Mae gan y bwrdd gweithredol gydbwysedd priodol o aelodau allanol a chyfarwyddwyr o'r Awdurdodau Lleol cyfansoddol. Mae'r cymorth cyfoedion a'r her rhwng cyfarwyddwyr yn effeithiol. Nid oes aelodaeth o awdurdodau Esgobaethol na'r sector ffydd ond maent yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Rheolwr Gyfarwyddwr er mwyn trafod a chymryd camau ynghylch materion cyffredin a meysydd sydd o ddiddordeb cyffredin. Mae arweinyddiaeth ar y cyd gan yr holl awdurdodau lleol wedi creu cynghrair gref sydd wedi galluogi'r rhanbarth i wneud safiad ar y cyd ynghylch sawl agwedd allweddol ar arferion. Serch hynny, mae rhai agweddau ar wneud penderfyniadau wedi bod yn aneglur. Hyd yn oed â gwelliannau sylweddol i drefniadau llywodraethu lle mae bron pob agwedd ar wybodaeth ar gael ar-lein, mae rhai agweddau ar atebolrwydd democrataidd yn dal yn aneglur i leiafrif bach. Yn yr un modd, mae rolau arweinwyr ysgol a'u dealltwriaeth o swyddogaethau ac effaith ERW yn gymysg. Mae strategaethau niferus wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn lliniaru'r risgiau hyn. Er gwaethaf rhywfaint o rwystredigaeth o ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, ar y cyfan mae'r rhanbarth yn hyderus y byddant dros amser yn cynyddu hyder ac ymddiriedaeth ymysg yr holl bartneriaid a rhanddeiliaid.</p>	<p>Cofnodion a phapurau y Cyd-bwyllgor</p>
<p>Mae gan arweinyddiaeth y rhanbarth gryfderau mewn meysydd megis sefydlu gweledigaeth strategol a phennu egwyddorion ar gyfer gwaith ar y cyd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae gwelliannau clir wedi bod o ran cyfleu'r negeseuon hyn yn glir i randdeiliaid. Fodd bynnag mae meysydd i'w datblygu o ran sicrhau darpariaeth effeithiol trwy staff gweithredol a galluogi'r holl aelodau etholedig i fod yn glir ynghylch gwaith y rhanbarth. Mae adborth gwell o seminarau a gweithgareddau craffu gyda phob un o'r chwe chyngor yn gadarnhaol ac yn dangos gwybodaeth a chanfyddiad cynyddol a gwell o waith y rhanbarth.</p>	<p>Seminarau adborth</p>
<p>Mae Bwrdd Cyflawni ERW a Chyfarwyddwyr y rhanbarth wedi adeiladu'n gyson ar y fantais gydweithredol a gafwyd yn sgil gwneud penderfyniadau ar y cyd o'r blaen. Mae cymryd ymagweddau cyffredin at heriau wedi</p>	

<p>arwain at welliannau o ran trefniadau ar gyfer tasgau gweithredol a gwneud penderfyniadau. Mae cynllunio effeithiol rhwng awdurdodau lleol trwy gynllun busnes ERW yn golygu bod strwythur mwyfwy pendant yn bodoli ar gyfer cydweithio pellach. Hefyd mae hyn yn golygu bod cysylltiadau â gweithgareddau cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol ehangach i gynnal gwella ysgolion yn gallu cael eu cynllunio'n systematig.</p>	
<p>Mae'r prif arweinydd, y prif weithredwr arweiniol, a'r prif gyfarwyddwr yn llywio'r rhanbarth yn llwyddiannus ac wedi cryfhau'r bartneriaeth rhwng y consortiwm a Llywodraeth Cymru a chryfhau ein statws fel rhanbarth. Mae categoraiddio a gwirio asesiadau athrawon wedi caniatáu i ERW gymryd rolau arweiniol o ran agweddau cenedlaethol allweddol ar wella ysgolion.</p>	
<p>Mae'r ymagwedd ranbarthol at ymgysylltu ag undebau ac yn benodol at gyflog ac amodau wedi bod yn llwyddiannus o ran galluogi swyddogion i weithio'n unol â pharmedrau cytûn ar draws y chwe Awdurdod Lleol. Serch hynny mae'r rhanbarth wedi canfod bod ymgysylltu â'r undebau llafur o ran gweithgareddau gwella ysgolion yn rhwystr i gynnydd. Mae perthnasoedd gweithio effeithiol gyda rhai undebau llafur yn ategu ymdrechion ERW i gefnogi a galluogi gwella ysgolion. Fodd bynnag, mae strategaeth, cenhadaeth a diben craidd ERW wedi eu seilio ar ymdrechion i ragori ac ar ddisgwyliadau sylfaenol yr holl ysgolion, athrawon a phenaethiaid i fod yn 'dda' neu'n 'well'. Felly er bod Undebau Llafur eraill yn datgan yn gyhoeddus 'bod digonol yn ddigon da' ac y dylid lleihau disgwyliadau, mae cyfaddawd neu hyd yn oed gyfathrebu effeithiol yn mynd i fod yn anodd iawn o ran materion allweddol egwyddorion ac arferion.</p>	<p>Cofnodion fforwm Undebau Llafur</p>
<p>Mae'r rheolwr gyfarwyddwr a'r tîm canolog wedi galluogi, ac ar adegau wedi gorfodi, trefniadau gwaith fel y gellir cynnal cyflymder a chysondeb. Mae hyn yn golygu bod y rhanbarth wedi datblygu ffrydiau gwaith a flaenoriaethir yn gynt megis dysgu proffesiynol a datblygiad TGAU ers lansio'r model cenedlaethol.</p>	
<p>Mae eglurder o ran atebolrwydd, rolau, a chyfrifoldebau rhwng y rhanbarth a'i awdurdodau lleol cyfansoddol yn cynnwys craffu, rheoli risg ac archwilio. Mae'n hanfodol fod trefniadau Craffu ar gyfer gwella ysgolion yn cael eu rheoli a'u cefnogi drwy awdurdodau lleol unigol oherwydd mae'r swyddogaethau statudol ar gyfer gwella ysgolion yn glir yn dal yn rhan o lywodraeth leol. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer 2015-16 yn cael eu cryfhau gan adeiladu ar brofiadau 2014-15.</p>	

<p>Yn ogystal, mae adnoddau a rheoli staff yn dal yn lleol a dylent fod yn atebol ar lefel pob Awdurdod Lleol. Serch hynny, mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer dod â hunanwerthuso parhaus at ei gilydd mewn hunanwerthusiad rhanbarthol â meysydd clir i'w datblygu sy'n cyfrannu at y Cynllun Busnes. Yn yr un modd, mae rheoli risg a chraffu yn effeithiol ac mae systemau tebyg i ddod â gwaith chwe sefydliad democrataidd ynghyd er mwyn osgoi dyblygiad.</p> <p>Mae'r flaenraglen waith graffu ranbarthol yn darparu fframwaith effeithiol i sicrhau y creffir ar waith rhanbarthol gan gynnal atebolrwydd democrataidd lleol a rhanbarthol.</p> <p>Mae pwyllgorau craffu y rhanbarth yn cydweithredu'n dda. Mae swyddogion ac aelodau yn meithrin perthnasoedd effeithiol a systemau cyffredin i hwyluso ac arwain craffu o ansawdd uchel o ran ERW.</p>	
<p>Mae gwaith lefel Hwb yn hanfodol i alluogi rhanbarth amrywiol i weithio'n effeithiol. Bydd llwyddiant pellach yn golygu adeiladu ar yr ymagwedd hon o fewn dealltwriaeth gyffredin o werth craidd, egwyddorion a threfniadau gwaith. Mae'r capasiti i arwain pob hwb o dan arweiniad y Rheolwr Gyfarwyddwr wedi arwain at waredu'r gwahaniaethau blaenorol o ran y cyflymder roedd gwaith yr hwb yn datblygu. Bellach mae'r her yn fwy cymhleth a'r nod yw sicrhau ansawdd uchel yn gyson yng ngwaith yr holl ymgynghorwyr a hawl gyffredin i bob ysgol sydd hefyd yn bwrpasol ac yn ymateb i angen.</p>	
<p>Yn fwyfwy, wrth i waith rhanbarthol ddatblygu a chryfhau, mae'r angen am atebion lleol yn amlycach o achos yr amrywiadau enfawr yn ddiwylliannol ac o ran capasiti. Mae'r cydbwysedd hwn yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan ond mae angen ymgysylltu'n barhaus ag unigolion allweddol. Fodd bynnag collwyd cyfleoedd i oresgyn gwahaniaethau daearyddol a chyd-destunol yn enwedig wrth ddefnyddio technoleg.</p> <p>Eir i'r afael â chymau gweithredu sy'n cael blaenoriaeth uchel, ac o bryd i'w gilydd maent yn adlewyrchu argymhellion arolygiaethau a rheolyddion neu archwilio mewnol.</p>	
<p>Mae synnwyr cryf o gydweithio a ffocws ar y cyd ar wella deilliannau. Er mwyn gweithio mewn partneriaeth mae angen tryloywder, ymddiriedaeth ac ymgysylltu cadarnhaol. Ar y cyfan ymgysylltir yn llawn â bron pob rhanddeiliad ac mae pob un bron yn gwybod ac yn deall cryfderau cydweithio yn dda.</p> <p>Lle bo pryderon neu broblemau o hyd, rydym wedi ymateb yn rhagweithiol</p>	



<p>i lywio a chefnogi ymgysylltiadau parhaus yn well, ac rydym yn dal i wneud hynny. Yn benodol mae gweithio gydag undebau llafur yn dal yn her.</p>	
<p>Mae golwg gyffredinol ar y cyd ERW o berfformiad yn werthusol ac yn onest. Mae ystod o fathau eraill o wybodaeth ar gael i grŵp y Cyfarwyddwr ynghylch cynnydd, heriau ac anghysondebau. Caiff hunan-wybodaeth y rhanbarth ei llywio trwy: cynnydd gweithgorau; canfyddiadau ac adborth craffu; rheoli risg; arolygon canfyddiad; trefniadau llywodraethu ac adborth mewnol ac allanol. Mae hon yn system a phroses cynhwysfawr sy'n datblygu ac yn cryfhau.</p>	<p>Adroddiad Hunanwerthuso 1-5</p>
<p>Mae'r rhanbarth yn dda am ymateb yn gyflym i wybodaeth megis yr uchod, perfformiad data ac adborth. Mae adborth gan ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn cael ei groesawu ac ymatebir yn gyflym iddo fel sy'n briodol. Mae hwn yn cael ei groesawu gan ysgolion ac yn adeiladu hyder yng ngallu'r rhanbarth i gefnogi ysgolion ac ymateb iddynt.</p>	
<p>Mae cyfathrebu wedi bod yn flaenoriaeth. Mae ein gwaith ar yr agwedd hon wedi bod yn llwyddiannus. Mae rhannu gwybodaeth o fewn y rhanbarth yn gwella trwy'r defnydd o'r wefan, er gwaethaf bod rhai ysgolion yn dal yn aneglur ynghylch ffrydiau gwaith, ffocws a blaenoriaethau'r rhanbarth. Caiff y risg hon ei hunioni'n gyflym trwy sicrhau bod y wybodaeth ar gael. Mae ailfrandio a sicrhau defnydd cyson o frand ERW yn effeithiol.</p> <p>Mae negeseua cyson a chlir wedi arwain at welliannau yn y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd gan rhanddeiliaid allweddol ynghylch cwmpas, llywodraethu, a swyddogaethau darparu ERW. Er bod hyn o'r blaen yn cael effaith niweidiol ar allu'r rhanbarth i weithredu fel cynghrair o chwe awdurdod, mae'r adborth gan y rhanddeiliaid i gyd bron yn awgrymu bod y sefyllfa wedi gwella.</p>	
<p>Mae ERW wedi sefydlu'r camau gofynnol ac argymhellion adolygiadau diweddar i'r Cynllun Busnes. Hefyd mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o gynnydd. Hefyd mae argymhellion archwilio mewnol yn cael eu cofnodi a'u rheoli trwy system ar-lein.</p> <p>Mae'r rhanbarth wedi gwneud cynnydd da ar y cyfan o ran yr agwedd hon ar waith ac wedi sefydlu'r cyfan yn effeithiol yn nhrefniadau cynllunio'r awdurdod lleol a'r rhai rhanbarthol.</p>	
<p>Mae ERW wedi'i sefydlu'n drefniadol fel partneriaeth. Nid yw'n hierarchaidd. Fodd bynnag, o fewn yr Awdurdodau Lleol cyfansoddol lle</p>	

<p>trefnir hybiau, ceir hierarchaeth draddodiadol. Fodd bynnag, yn y rhanbarth caiff cyfrifoldebau eu dyrannu yn ôl cryfderau, arbenigaeth, a gwybodaeth ar draws ffiniau traddodiadol.</p> <p>Yn y cylch arolygu presennol hwn o Awdurdodau Lleol, nid oes angen mynd ar drywydd unrhyw awdurdod lleol yn y rhanbarth. Yn yr un modd, ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion, gan y rhanbarth y mae'r proffil cryfaf o hyd. Yn ôl y dadansoddiad o ddyfarniadau Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch arweinyddiaeth Awdurdodau Lleol, mae gan y rhanbarth ragolygon da neu'r capasiti i gyflawni yng ngham nesaf gwaith rhanbarthol o dan y model cenedlaethol. Mae'r sail gref hon wedi galluogi'r rhanbarth i adeiladu ar ei strwythurau llywodraethu yn llawn ac yn gadarn.</p>	
<p>Mae'r amodau ar gyfer llwyddo mewn partneriaeth o'r fath wedi'u hadlewyrchu mewn ymchwil allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys tîm canolog bach; deilliannau cryno cytûn ar y cyd; llywodraethu tryloyw agored. Mae ERW wedi adeiladu seilwaith cadarn ar gyfer yr amodau uchod yn y misoedd diwethaf a dylai fod mewn sefyllfa gref i lwyddo. Yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cyhoeddi'r Model Cenedlaethol mae ERW wedi creu'r amodau ar gyfer partneriaeth effeithiol. Bydd y flwyddyn academaidd nesaf (2015-16) yn brawf sylweddol i'r rhanbarth a chaiff gwerth ac effaith y seilwaith eu profi'n llawn.</p>	<p>Dangosfyrddau deilliannau sy'n flaenoriaeth</p>
<p>Mae hanes profedig y rhanbarth fel cynghrair ddefnyddiol i gefnogi'r holl Awdurdodau Lleol ar eu teithiau gwella wedi arwain at gydweithio mwy aeddfed eleni. Mae gwaith hwb effeithiol wedi galluogi cyfarfodydd Uwch Dîm Rheoli ar y cyd yng Nghastell-nedd Port Talbot/ Abertawe i blethu â threfniadau Sicrhau Ansawdd yr Hwb. Hefyd, gwnaed gwaith wedi'i dargedu yn Sir Gaerfyrddin i adlinio capasiti a blaenoriaethau allweddol.</p>	
<p>Mae'r gwaith i blethu agweddau ar swyddogaethau Awdurdodau Lleol sy'n dal i fod y tu allan i gwmpas ERW yn amrywio ar hyn o bryd. Mae rhai awdurdodau lleol yn plethu eu cynlluniau'n dda o ran yr agweddau hyn ac yn gwneud cysylltiadau amlwg â gwella ysgolion. Yn yr achosion gorau mae'r trefniadau effeithiol i reoli cysylltiadau â chynhwysiant a gwasanaethau cymorth ehangach yn aeddfed. Hefyd mae rhai agweddau megis presenoldeb wedi cael sylw cydweithredol, ond ar y cyfan mae lle i gryfhau ffocws strategol ar sawl agwedd sy'n effeithio ar allu ysgolion i wella. Agwedd allweddol mewn nifer o awdurdodau, sy'n cael effaith gref ar welliant, yw'r rhaglenni ad-drefnu ysgolion a'r gwasanaethau cymorth i ddysgwyr.</p>	<p>Deilliannau arolygiad;</p>

